# PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo, Dydd Iau, 26 Ionawr 2023 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Jon Harland, Carol Holliday, Alan Hughes, Hugh Irving (Cadeirydd), Terry Mendies, Gareth Sandilands (Is-Gadeirydd) ac Andrea Tomlin

**Aelodau Cyfetholedig Addysg –**
Kathy Jones a Neil Roberts

**Aelodau Arweiniol – yn bresennol ar ôl cael gwahoddiad gan y Pwyllgor**
Roedd y Cynghorydd Gill German, Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd yn bresennol ar gyfer Eitem 5, Adroddiad Archwilio Crist y Gair.
Roedd y Cynghorydd Elen Heaton, Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn bresennol ar gyfer Eitem 6, Adroddiad Perfformiad Cefndy 2022/23.

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones a Huw Hilditch-Roberts.

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes (Swyddog Monitro) (GW); Pennaeth Addysg (GD); Pennaeth Cyllid (SG); Prif Reolwr Addysg (JB); Prif Reolwr Addysg (MG); Pennaeth Cefnogaeth Gymunedol Dros Dro (AL); Rheolwr Gwasanaeth Gweithredol _ Cefndy (NB); Cydlynydd Craffu (RE); Gwesteiwr Zoom a Gwe-ddarlledu (KJ) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW)

**Cynrychiolwyr GwE – Arweinwyr Craidd Sir Ddinbych**
Jacquie Chan (Cynradd) a Mair Herbert (Uwchradd)

**Cynrychiolwyr Crist y Gair –**
Bernadette Thomas (Pennaeth Dros Dro)
Claire Armistead (Pennaeth Cysylltiol)
Colette Owen (Cynrychiolydd Esgobaeth Gatholig Rufeinig Wrecsam)
Y Cynghorydd Peter Prendergast (Is-Gadeirydd y Corff Llywodraethu)

## PWYNTIAU I'W NODI

Cadeiriodd yr Is-Gadeirydd y cyfarfod yn ôl y trefniadau y cytunwyd arnynt eisoes rhyngddo ef a'r Cadeirydd, gan fod y Cadeirydd wedi rhagweld na fyddai'n gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Chris Evans a Terry Flanagan, Aelod Cyfetholedig dros Addysg (Sector Cynradd, Sector Rhiant-lywodraethwr).

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorwyr canlynol gysylltiad personol gydag eitem rhif 5 - y Cynghorydd Ellie Chard fel llywodraethwr presennol yn Ysgol Tir Morfa ac fel cyn-weithiwr Ysgol Mair (yr hen ysgol gynradd cyn sefydlu Crist y Gair) a'r Cynghorydd Peter Prendergast yn ei rôl fel Is-gadeirydd presennol Corff Llywodraethu Crist y Gair.

Eglurodd y Swyddog Monitro bod cysylltiad y Cynghorydd Chard yn hanesyddol ac felly nad oedd angen ei ddatgan mwyach. Ac fe eglurodd i'r Cynghorydd Prendergast, yn ei gapasiti fel Is-gadeirydd y Corff Llywodraethu, fod ganddo gysylltiad personol ac sy'n rhagfarnu gyda'r eitem, ond gan ei fod yn llywodraethwr wedi'i benodi gan yr Awdurdod Addysg Lleol roedd yn gymwys am eithriad rhag cael ei nodi fel cysylltiad sy'n rhagfarnu. Felly, roedd ei gysylltiad yn un personol yn unig at ddibenion y drafodaeth yn y cyfarfod presennol.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Nid oedd unrhyw fater brys wedi'i godi gyda'r Cadeirydd na'r Cydlynydd Craffu cyn dechrau'r cyfarfod.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2022. Fe:

***<u>BENDERFYNWYD:</u>* y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2022 fel cofnod gwir a chywir o'r gweithrediadau.**

Ni chodwyd unrhyw fater mewn perthynas â chynnwys y cofnodion.

## GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Oherwydd natur gyfrinachol y wybodaeth a fyddai'n cael ei thrafod o dan yr eitem ganlynol, cynigodd y Cynghorydd Hugh Irving y dylid symud y cyfarfod i Ran II, eiliodd y Cynghorydd Carol Holliday y cynnig. Roedd y Pwyllgor yn gytûn ac fe:

***BENDERFYNWYD*** *o dan Adran 100A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes a ganlyn ar y sail ei fod yn ymwneud â datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 13 a 15 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.*

## 5 ADRODDIAD AROLWG CRIST Y GAIR

Cyflwynodd y Pennaeth Addysg, Geraint Davies, yr adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) a oedd yn amlinellu'r ymateb i Adroddiad Arolwg Estyn yn ddiweddar a arweiniodd at roi Ysgol Gatholig Crist y Gair dan Fesurau Arbennig.

Yn ystod ei gyflwyniad, darparodd y Pennaeth Addysg rywfaint o gyd-destun i arolwg Estyn, a oedd yn cynnwys gwybodaeth gefndir am sefydlu'r ysgol, effaith Covid ar yr holl ddisgyblion a sefydliadau addysg gan gynnwys Ysgol Crist y Gair, a manylion y pum argymhelliad a wnaed gan Estyn, a oedd wedi'u nodi yn Adroddiad yr Arolwg sydd ar gael ar wefan Estyn.

Yn ogystal â hyn, nododd yr holl gamau a gymerwyd gan Wasanaeth Addysg y Cyngor, Corff Llywodraethu'r Ysgol, yr Esgobaeth a GwE hyd yma gyda'r nod o fynd i'r afael ag argymhellion Estyn, a oedd yn cynnwys datblygu Cynllun Gweithredu Ôl Arolwg (CGOA) a Chynllun Cefnogaeth ar y cyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol a GwE ar gyfer yr ysgol. Roedd y mesurau hyn yn cynnwys penodi llywodraethwyr ychwanegol ar Gorff Llywodraethu'r Ysgol, penodi tîm arweinyddiaeth dros dro ar gyfer yr ysgol a darparu cefnogaeth ychwanegol i gynorthwyo i symud yr ysgol yn ei blaen. Mae'r holl gamau hyn a'r mesurau a amlinellwyd yn y CGOA wedi'u derbyn gan Estyn ac mae darpariaeth y CGOA a chynlluniau gweithredu'r Awdurdod Addysg Lleol / GwE yn awr yn destun her a monitro rheolaidd.

Gan ymateb i gwestiynau aelodau'r Pwyllgor bu i Aelod Arweiniol Addysg, Teuluoedd a Phlant, y Pennaeth Addysg, Swyddogion Addysg yr Awdurdod Addysg Lleol, cynrychiolwyr Ysgol Crist y Gair a'r Esgobaeth, ynghyd â chynrychiolwyr GwE:

- amlinellu trefniadau llywodraethu a rheoli ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir.
- darparu trosolwg o broses Arolwg Estyn, gan gynnwys y gwaith a wneir cyn Arolwg
- amlinellu'r mathau o gefnogaeth a gynigiwyd i'r ysgol ers ei sefydlu
- cadarnhau bod diogelu yn nodwedd allweddol ym mhob un o arolygon Estyn. Bod y mesurau sydd yn awr yn eu lle mewn ymateb i argymhelliad y rheoleiddiwr yn cael eu herio a'u monitro'n barhaus i sicrhau eu cadernid. Hefyd, mae llywodraethwr ychwanegol wedi'u penodi i Gorff Llywodraethu'r Ysgol ac roedd y llywodraethwr wedi derbyn cyfrifoldeb am ddiogelu ar y Corff Llywodraethu.
- cynghori'r cynhelir sawl digwyddiad hyfforddi ar gyfer arweinwyr ysgolion, staff a llywodraethwyr i sicrhau fod ganddynt y sgiliau perthnasol i fynd i'r afael â'r argymhellion a darparu'r cynlluniau gweithredu
- cadarnhau bod y CGOA a Chynllun Cefnogi'r Awdurdod Addysg Lleol / GwE yn plethu â'r Cwricwlwm i Gymru, Rhaglen Cyfarwyddyd Crefyddol a Chod Perthnasoedd ac Addysg Rhyw a byddai'n sicrhau eu darpariaeth ar draws yr ysgol yn y dyfodol
- darparu sicrwydd bod yr holl bartneriaid sy'n ymwneud â'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd gyda nod gyffredin o gefnogi'r ysgol yn y dyfodol a sicrhau'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer yr holl ddysgwyr sy'n mynychu'r ysgol.

Ar ddiwedd trafodaeth gynhwysfawr a thrylwyr, diolchodd y Pwyllgor i bawb am eu presenoldeb ac am gyfrannu'n adeiladol at y drafodaeth:

***<u>Penderfynwyd:</u>:***

*(i) derbyn y wybodaeth a ddarparwyd yn ystod y drafodaeth;*
*(ii) cefnogi ymdrechion yr holl bartïon hyd yma i fynd i'r afael â'r argymhellion a nodwyd yn adroddiad Arolwg Estyn ar gyfer Ysgol Crist y Gair; a*
*(iii) gofyn bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Medi 2023 yn nodi'r cynnydd a gyflawnwyd o ran gweithredu a darparu'r Cynllun Gweithredu Ôl Arolwg (CGOA) a Chynllun Cefnogaeth ar y cyd yr Awdurdod Lleol a GwE yn dilyn arolwg Estyn o'r ysgol yn 2022.*

**AR YR ADEG HON (11.50 AM) CAFWYD EGWYL O 10 MUNUD.**
**AILDDECHREUODD Y CYFARFOD AM 12.00 P.M.**

**SESIWN AGORED**

Ar ôl cwblhau'r busnes uchod, ailddechreuodd y cyfarfod mewn sesiwn agored.

**6 ADRODDIAD PERFFORMIAD CEFNDY 2022-23**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Cynghorydd Elen Heaton, Adroddiad Perfformiad Cefndy 2022-23 (a ddosbarthwyd ymlaen llaw). Roedd yr adroddiad yn rhoi trosolwg o berfformiad Cefndy ar hyn o bryd yn y flwyddyn ariannol 2022-23 ac amodau'r farchnad y mae'n gweithredu ynddi.

Cadarnhawyd bod Cefndy yn cynhyrchu cymhorthion byw amrywiol ac wedi bodoli ers oddeutu 40 mlynedd. Roedd llawer o aelodau staff wedi gweithio yng Nghefndy ers sawl blwyddyn a'r cyfartaledd o ran hyd y gwasanaeth yw 17 mlynedd.

Eglurodd Pennaeth Dros Dro Cefnogaeth Gymunedol, Ann Lloyd, bod adroddiadau wedi'u cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu ers sawl blwyddyn. Bu amhariad sylweddol ac ansefydlogrwydd o ran cost i gadwyni cyflenwi byd-eang ers dechrau pandemig Covid, gan gynyddu gallu Cefndy i gystadlu yn erbyn mewnforion. Roedd hyn wedi cael effaith gadarnhaol gyda gwerthiant yn cynyddu o ran cwsmeriaid presennol ac roedd wedi gweld rhywfaint o fusnes ychwanegol gan gwsmeriaid newydd.

Roedd Cefndy wedi wynebu rhywfaint o bwysau cyllidebol na ellir ei ragweld yn ystod y flwyddyn ariannol hon gan gynnwys costau ynni ychwanegol, cynnydd uwch na'r disgwyl i gyflogau ac atgyweiriadau brys i adeiladau.

Gwnaed gwaith dros y 18-24 mis blaenorol i gynorthwyo i sefydlogi'r gwasanaeth.

Yr adborth a gafwyd gan un o gwsmeriaid mwyaf Cefndy yw y dylai Cefndy fod yn adeiladu ar y ffaith eu bod yn Wneuthurwr Prydeinig, ac yn sicrhau gwerth cymdeithasol. O ganlyniad i'r adborth, cynhaliodd y Prif Reolwr Marchnata Strategol, sesiwn i gefnogi'r tîm i ddatblygu cynllun gweithredu ynghylch cynyddu gwerthiant o un busnes i'r llall â chwsmeriaid presennol. Roedd swyddogion hefyd yn ystyried cyfleoedd i ailddechrau perthnasoedd â chwsmeriaid blaenorol yn

seiliedig ar y cyfleoedd presennol yn y farchnad a'r gallu i gystadlu (ar ystod o gynhyrchion) â mewnforion.

Gan fod rhai swyddi gwag yng Nghefndy, roedd yn gyfle i adolygu’r model busnes.

Roedd gwaith ar y gweill gan fod yr adeilad angen atgyweiriadau sylweddol. Roedd angen disodli’r System Echdynnu i adlewyrchu newid mewn deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch. Roedd rhai eitemau o offer y tu hwnt i’w hoes ac nid oedd darnau sbâr ar gael mwyach. Roedd achos busnes yn cael ei ddatblygu i’w gyflwyno i’r Grŵp Buddsoddi Strategol am £400mil.

Gan fod yr Atodiad yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol cynigodd y Cynghorydd Carol Holliday fod y cyfarfod yn symud i Ran II ar gyfer gweddill y drafodaeth, eiliodd y Cynghorydd Andrea Tomlin y cynnig hwn. Penderfynodd y Pwyllgor i :

**WAHARDD Y WASG A’R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *o dan Adran 100A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes a ganlyn ar y sail ei fod yn ymwneud â datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.*

Wrth ymateb i gwestiynau aelodau gwnaeth yr Aelod Arweiniol a swyddogion:

- gynghori er bod gan Cefndy bum cwsmer mawr yr oedd yn archwilio cyfleoedd datblygu â nhw, roedd yn cyflawni busnes gyda dros 100 o gwsmeriaid unigol gwahanol, gan gynnwys awdurdodau lleol eraill
- cynghori bod Cefndy yn darparu cyfleoedd cyflogaeth gwerthfawr i bobl anabl. Roedd Cefndy yn wahanol i Wasanaethau Cyfleoedd Gwaith y Cyngor gan fod y rhai a oedd yn cael eu cyflogi yng Nghefndy yn weithwyr cyflogedig y Cyngor ac felly’n destun amodau a thelerau cyflogaeth y Cyngor
- darparu manylion costau untro annisgwyl a brofwyd yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol, y pwysau annisgwyl eraill a’r mesurau a gymerwyd i fynd i’r afael â nhw ynghyd â mesurau lliniaru risg yn y dyfodol
- cynghori bod yr holl gyfleoedd wedi’u harchwilio gyda’r nod o ddatblygu a chynnal y busnes ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys cynyddu y cyfleoedd gwaith partneriaeth gyda Choleg Llandrillo pan agorodd y safle newydd yn y Rhyl, ger eiddo Cefndy.

Felly, ar ddiwedd trafodaeth fanwl, fe wnaeth y Pwyllgor:

***<u>Benderfynu</u>: yn amodol ar y sylwadau uchod –***

***(i)*** ***derbyn y dadansoddiad perfformiad, gwerthiant a chostau a gyflwynwyd ar gyfer Cefndy ar gyfer 2022/23 hyd yma, gan gydnabod y pwysau annisgwyl ar y gyllideb a wynebwyd a’r gwaith a wnaed i liniaru’r effaith;***

***(ii)*** ***cefnogi’r gwaith a wnaed yng Nghefndy a chyflawniadau’r model busnes a weithredir o fewn Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol y Cyngor;***

***(iii)gofyn bod Adroddiad Gwybodaeth yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol yn nodi dadansoddiad perfformiad diwedd blwyddyn Cefndy ar gyfer 2022/23.***
***(iv) Gofyn bod adroddiad perfformiad blynyddol Cefndy ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24, gan gynnwys dadansoddiad o ddarpariaeth ei amcanion ariannol, busnes a lles cymdeithasol, yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn ystod yr haf 2024; a***
***(v) gofyn am gael trefnu ymweliad ar gyfer holl aelodau'r Pwyllgor i safle Cefndy i weld y cyfleusterau gweithgynhyrchu, y gwaith cynhyrchu a wneir yno a'r cyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael ac i gwrdd â'r gweithlu.***

**RHAN I**

**SESIWN AGORED**

Ar ôl cwblhau'r busnes uchod, ailddechreuodd y cyfarfod mewn sesiwn agored.

## 7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cyflwynodd y Cydlynydd Craffu yr adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw). Roedd pedair eitem wedi'u rhestru ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Perfformiad ar 16 Mawrth 2023 -

(i) Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru);
(ii) Cynllun Gweithredu Strategaeth Tai a Digartrefedd Sir Ddinbych;
(iii) Safonau Gwasanaeth Llyfrgell 2021/2022; a
(iv) Llwydni ac Anwedd yn Stoc Tai Cyngor Sir Ddinbych.

Roedd eitem (iv) wedi'i atgyfeirio at y Pwyllgor gan Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu yn eu cyfarfod ar 19 Ionawr 2023. Yn ogystal â hyn, gwnaed ymholiadau gyda'r swyddogion perthnasol a fyddai'r adroddiadau sydd o dan (i) i (iii) ar gael ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor. Disgwylir manylion pellach o ran Mesur Teithio Dysgwyr (Cymru) gan Lywodraeth Cymru, felly ni fyddai'r adroddiad hwn ar gael nes yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Gofynnwyd am gynrychiolydd o bob Pwyllgor Craffu i'w penodi ar y Grŵp Craffu Cyfalaf. Byddai'r Grŵp yn cyfarfod chwe gwaith y flwyddyn a byddai'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rhithiol. Cynigiodd y Cynghorydd Terry Mendies fod y Cynghorydd Gareth Sandilands yn cael ei benodi i'r Grŵp, ac fe eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Carol Holliday. Cytunwyd y byddai'r Cynghorydd Hugh Irving yn dirprwyo yn absenoldeb y Cynghorydd Sandilands.

Eglurodd y Cydlynydd Craffu i'r aelodau y byddai Grwpiau Her Gwasanaeth yn cael eu hailsefydlu a byddai angen cynrychiolydd ar gyfer pob un o'r naw o wasanaethau yn y cyngor yn y dyfodol agos. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried pa wasanaethau sydd o ddiddordeb penodol iddynt gan efallai y byddant yn dymuno rhoi eu henwau ymlaen maes o law i wasanaethu fel cynrychiolydd y Pwyllgor ar Grŵp Her y Gwasanaeth hwnnw.

Bu i'r Pwyllgor:

***Benderfynu****: yn amodol ar y wybodaeth yn yr adroddiad a chynnwys yr eitemau a gytunwyd ar gyfer y dyfodol yn y cyfarfod; i*

***(i)*** ***gadarnhau rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor, fel yr oedd yn atodiad 1 i'r adroddiad; a***

***(ii)*** ***phenodi'r Cynghorydd Gareth Sandilands fel cynrychiolydd i wasanaethu ar y Grŵp Craffu Cyfalaf, gyda'r Cynghorydd Hugh Irving yn cael ei benodi fel dirprwy gynrychiolydd y Pwyllgor ar y Grŵp.***

**8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU**

Dim

**DAETH Y CYFARFOD I BEN AM 1.00 P.M.**